**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Addysg a Sgiliau

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mercher, 11 Hydref 2017 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd R V Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| S E Crouch | L R Jones | M A Langstone |
| S Pritchard | K M Roberts | D W W Thomas |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Gareth Borsden | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Chris Sivers | Cyfarwyddwr Pobl |
| Nick Williams | Chief Education Officer |

**Hefyd yn bresennol:**
Jane Lewis – Rheolwr RLSP
Judith James – Prifysgol Abertawe

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): B Hopkins, M H Jones, M B Lewis a/ac M Sykes

---

## 17 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 18 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 13 Mis Medi 2017 fel cofnod cywir.

## 19 Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol a'r Fargen Ddinesig. (Cyflwyniad)

Rhoddodd Jane Lewis, Rheolwr RLSP De-orllewin a Chanolbarth Cymru gyflwyniad manwl ac addysgiadol a oedd yn amlinellu'r manylion cefndir, y nodau a'r amcanion, ac ymrwymiad llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru yn y bartneriaeth.

Fel rhan o'r cyflwyniad, amlinellwyd y meysydd canlynol a chyfeiriwyd atynt:

- 3 grŵp partneriaeth yng Nghymru, grŵp y canolbarth a de-orllewin Cymru yw'r mwyaf o ran daearyddiaeth,
- Mae sectorau gwahanol yn cymryd rhan - ôl-16, addysg bellach a diwydiant etc
- Dibenion a chanlyniadau posib,
- Effaith y Fargen Ddinesig,
- Yr Arsyllfa - beth ydyw a sut mae'r data a geir ganddi'n cael ei ddefnyddio,

- Y cynllun sgiliau rhanbarthol a lansiwyd yn ddiweddar,
- Y prif flaenoriaethau - cyflogadwyedd, dysgu a dewis gyrfaoedd a chyfleoedd a darpariaeth,
- Angen cynyddu nifer y cynlluniau prentisiaethau sydd ar gael,
- Darlun economaidd o ardal a'r angen i gynyddu GGY,
- Yr hyn sydd wedi'i gyflawni hyd yn hyn,
- RLSP yn symud ymlaen - yr aelodaeth wedi'i diwygio ac mae'n canolbwyntio mwy ar ddiwydiant erbyn hyn,
- Grwpiau clwstwr rhanbarthol, a'u materion a'u ffocws daearyddol a recriwtio gwahanol,
- Angen mwyafu potensial y Fargen Ddinesig a'i 10 prif brosiect,
- Y Fargen Ddinesig - cynigion ymyriad sgiliau,
- Proses 5 cam ar gyfer cynorthwyo'r gweithlu,
- Effaith bosib y Morlyn Llanw.

Bu'r aelodau'n trafod y materion a'r meysydd pwnc a godwyd gan amlygu'r cyflwyniad uchod, a gofynnwyd cyfres o gwestiynau ynghylch y meysydd canlynol, ac atebodd Rheolwr yr RLSP a'r swyddogion yn briodol:-
Darpariaeth ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn y dyfodol, yr angen i wella sgiliau digidol a pheirianneg a sgiliau "meddal", angen mwy o ymrwymiad gydag ysgolion, angen mwy o gyfranogiad gyda busnesau llai llwyddiannus, prinder graddedigion TG a pheirianneg yn yr ardal a phrinder arbenigwyr meddalwedd

Diolchodd y Cadeirydd i Reolwr yr RLSP am ei chyflwyniad.

## 20 Dinas Dysg Abertawe. (Trafodaeth)

Rhoddodd Judith James, Prifysgol Abertawe, gyflwyniad manwl a llawn gwybodaeth a oedd yn amlinellu manylion cefndir i ddatblygu Abertawe fel Dinas Dysg.

Fel rhan o'r cyflwyniad, amlinellwyd y meysydd canlynol a chyfeiriwyd atynt:

- Rhwydwaith byd-eang UNESCO o 200 o ddinasoedd mewn 40 o wledydd,
- Amodau hanfodol ar gyfer dyluniad y Ddinas Dysg.
- Cyfranogiad Abertawe yn y cynllun peilot ers 2012,
- Cyhoeddusrwydd gwych i Abertawe'n fyd-eang oherwydd ei chyfranogiad yn y cynllun,
- Nodau byd-eang,
- Chwe phrif gam i ddatblygu Dinas Dysg,
- Pwysigrwydd cydnabod treftadaeth a hanes diwydiannol,
- Angen gwella ffyniant economaidd a chynyddu GGY,
- Dinas o ddwy hanner - effaith tlodi ac amddifadedd ar gymunedau ac mae angen mynd i'r afael â hyn drwy Strategaeth Gwrthdlodi'r Awdurdod,
- Canlyniadau Pisa,
- Datblygu polisïau Dinas Dysg ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru,
- Llwyddiant Strategaeth Entrepreneuriaeth Ieuenctid mewn ysgolion cynradd ac uwchradd,
- Mentrau addysg bellach/uwch a "chynnwys" cynaladwyedd pobl ifanc mewn prosiectau a syniadau,
- Pwysigrwydd dysgu gydol oes/addysg i oedolion,

- Mentrau cymdeithasol ac ecosystem ar gyfer entrepreneuriaid,
- Canlyniad ac effaith 2il gampws y brifysgol yn y bae,
- Llwyddiant Abertawe'n cyflawni 2 wobr yn 2015,
- Agor cyfleuster newydd Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe (YAPA),
- Effaith a photensial prosiectau'r Fargen Ddinesig,
- Canfyddiadau adolygiad tlodi Sefydliad Joseph Rowntree,
- Camau nesaf - datblygu prosiect cymdogaethau dysgu, sy'n debyg i fodel Corc.

Bu'r aelodau'n trafod y materion a'r meysydd pwnc a godwyd ac a amlygwyd yn ystod y cyflwyniad uchod, a gofynnwyd cyfres o gwestiynau ynghylch y meysydd canlynol, ymatebodd Judith James a swyddogion yn briodol:-
Datblygu'r cynllun cymdogaethau dysgu - ariannu, staffio, pa ardaloedd fyddai'n cymryd rhan, angen ymrwymiad ysgolion a diwydiant, cyswllt ag ERW, materion cynnwys pobl a chymunedau.

Diolchodd y Cadeirydd i Judith James am ei chyflwyniad.

## 21 Asesu anghenion addysg a sgiliau.

Cyflwynodd y Prif Swyddog Addysg adroddiad a oedd yn amlinellu manylion cefndir datblygu'r asesiad o anghenion sy'n ceisio sicrhau bod trefniadau addas ar waith i gyflwyno'r Fargen Ddinesig.

Amlinellodd y cynigion a'r gwaith i'w wneud, y canlyniadau disgwyliedig, y trafodaethau angenrheidiol gyda sefydliadau partner a threfniadau llywodraethu i'w rhoi yn eu lle.

Trafododd y pwyllgor yr adroddiad gan gyfeirio at yr angen i ddatblygu sgiliau "cyfrifiadura" disgyblion, materion hyfforddi athrawon, angen hyrwyddo cynigion i Benaethiaid, llywodraethwyr ysgolion etc, ailhyfforddi/datblygu sgiliau athrawon presennol, hyrwyddo prentisiaethau a chyrsiau galwedigaethol/crefft.

**Penderfynwyd** trafod yr adroddiad eto yn y cyfarfod nesaf er mwyn ei gymeradwyo, cyn ei gyflwyno i Aelod y Cabinet.

## 22 Cynllun Gwaith 2017 - 2018.

Amlinellodd y Cadeirydd y cynllun gwaith ar gyfer y pwyllgor a gweddill blwyddyn ddinesig 2017/2018.

**Penderfynwyd** bod y cynllun gwaith fel y'i hamlinellwyd yn cael ei nodi, gan ychwanegu yn ôl adroddiad uchod

Daeth y cyfarfod I ben am 5.48 pm

**Cadeirydd**